# Tŷ Agored

Y Cylchgrawn ar gyfer **Tenantiaid a Lesddeiliaid y Cyngor** Rhifyn 1 2025





**Gwaith yn parhau i wella ein cartrefi – gweler tudalennau 4-5**





Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council

# Y tu **mewn**

Cystadleuaeth Arddio 2024 Yr Enillwyr! .................................. 1
Newidiadau i Fesuryddion Trydan ........................................ 2
Y Diweddaraf am y Rhaglen Rhagor o Gartrefi ........................ 3
Diweddariad ar Safon Ansawdd Tai Cymru ................... 4
Arolygon Boddhad Tenantiaid a Lesddeiliaid .............................. 6
Lleisiau Tenantiaid ..................... 8
Newyddion Byw'n Annibynnol .. 9
Diogelwch Nwy ......................... 9
HomeSwapper .......................... 10
Gwybodaeth am Ailgylchu ........ 10

**Os hoffech gael yr wybodaeth hon mewn fformat arall e.e. print bras, Braille, disg neu ddull arall, cysylltwch â'r Gwasanaethau Cwsmeriaid Tai ☎ 01792 635045 neu ewch i'n gwefan www.abertawe.gov.uk/tai neu e-bostiwch ✉ tai@abertawe.gov.uk**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a byddwn yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg a Saesneg i'r un safonau ac amserlenni.

## Eich sylwadau am gylchgrawn Tŷ Agored:

Oes gennych unrhyw sylwadau am y rhifyn hwn o gylchgrawn Tŷ Agored neu am unrhyw un o'r erthyglau yr ydych wedi'u darllen?

Os felly, gallwch ysgrifennu i'r cyfeiriad canlynol: Dinas a Sir Abertawe, Adran Tai, Neuadd y Ddinas, Abertawe SA1 4PE neu e-bostiwch ✉ **tai@abertawe.gov.uk** neu ffoniwch ☎ **01792 635045**.

**Diolch am eich amser.**
Rhowch wybod i ni a ydych yn hapus i ni gyhoeddi eich sylwadau yng nghylchgrawn Tŷ Agored.

# Croeso i **Dŷ** Agored

Croeso i rifyn diweddaraf Tŷ Agored. Yn y rhifyn hwn rydym yn cynnwys enillwyr ein 25ain gystadleuaeth arddio i denantiaid a lesddeiliaid. Llongyfarchiadau i'r holl enillwyr a diolch am yr holl gynigion. Ar dudalennau 1 a 2 mae lluniau lliwgar a fydd yn rhoi gwên ar eich wyneb yn ystod diwrnodau diflas y gaeaf!

Ar dudalennau 3 i 5, mae'r newyddion diweddaraf am ein rhaglen Rhagor o Gartrefi, sy'n darparu rhagor o dai cyngor, a Safon Ansawdd Tai Cymru, sy'n ymdrin â gwaith i wella ein tai presennol.

Rydym hefyd yn rhoi adborth ar ganlyniadau arolwg boddhad tenantiaid a lesddeiliaid y llynedd ar dudalennau 6 a 7.

Mae gwybodaeth bwysig am ddiogelwch nwy ar dudalen 9 – cofiwch fod gwiriadau diogelwch nwy blynyddol AM DDIM i denantiaid y Cyngor.

Fel bob amser, os oes gennych unrhyw adborth ar erthyglau neu ar yr hyn yr hoffech chi ei weld mewn rhifyn yn y dyfodol, hoffem glywed gennych.

Nicola Jackson, Golygydd

# **Cysylltiadau** Defnyddiol

Golygydd - Nicola Jackson .......... ☎ **635045**
Canolfan Gyswllt Atgyweiriadau .......... ☎ **635100**
Atgyweiriadau Brys y tu allan i Oriau Swyddfa .......... ☎ **521500**
Uned Cefnogi Cymdogaethau 24 awr .......... ☎ **648507**
Opsiynau Tai .......... ☎ **533100**
Canolfan Gyswllt yr Amgylchedd .......... ☎ **635600**
Ymholiadau Budd-dal Tai .......... ☎ **635353**

**Swyddfa Dai'r Ardal Ganolog**
*Mae'r ARDAL GANOLOG yn cwmpasu ardaloedd tai Townhill a chanol y ddinas ac mae'r gwasanaeth wedi'i leoli yn Swyddfa Dai Townhill.*
✉ **swyddfadai.ardalganolog@abertawe.gov.uk**
☎ **01792 513900**

**Swyddfa Dai Ardal y Dwyrain**
*Mae ARDAL Y DWYRAIN yn cwmpasu ardaloedd tai Eastside a Threforys ac mae'r gwasanaeth wedi'i leoli yn Swyddfa Dai Treforys.*
✉ **swyddfadai.ardalydwyrain@abertawe.gov.uk**
☎ **01792 601720**

**Swyddfa Dai Ardal y Gogledd**
*Mae ARDAL Y GOGLEDD yn cwmpasu ardaloedd tai Blaen-y-maes a Phen-lan ac mae'r gwasanaeth wedi'i leoli yn Swyddfa Dai Blaen-y-maes.*
✉ **swyddfadai.ardalygogledd@abertawe.gov.uk**
☎ **01792 534060**

**Swyddfa Dai Ardal y Gorllewin**
*Mae ARDAL Y GORLLEWIN yn cwmpasu ardaloedd tai Gorseinon, West Cross a Sgeti ac mae'r gwasanaeth wedi'i leoli yn Hwb Llyfrgell Gorseinon a Swyddfa Dai Sgeti.*
✉ **swyddfadai.ardalygorllewin@abertawe.gov.uk**
☎ **01792 897700**

25 MLYNEDD

# Cystadleuaeth Arddio 2024

## Yr Enillwyr!

**Yn ystod 2024, gwnaethom ddathlu 25 mlynedd y gystadleuaeth arddio i denantiaid a lesddeiliaid ac roedd yn hyfryd gweld cynigion gan y rhai hynny sy'n cystadlu'n rheolaidd a newydd-ddyfodiaid.**

Unwaith eto, gwnaethom ofyn i chi anfon lluniau o'ch gerddi ac ni chawsom ein siomi gennych! Roedd yn benderfyniad anodd iawn dewis yr enillwyr gan i ni dderbyn cynifer o gynigion gwych. Gwnaethoch greu argraff ar y beirniaid gyda'ch gerddi lliwgar, eich defnydd clyfar o le a'ch amrywiaeth hyfryd o flodau a phlanhigion!

Felly, rydym yn diolch yn fawr i chi am gymryd rhan ac yn edrych ymlaen at weld eich gerddi eto'n ddiweddarach eleni. Bydd gwybodaeth am y gystadleuaeth arddio eleni yn rhifyn nesaf Tŷ Agored.

**Dyma ddetholiad o erddi buddugol 2024:**



Gardd gyffredinol orau - Gayan Kodagodage



2il safle - Joanne McCabe



3ydd safle - Alfred Scott



Yr Ardd Ffordd o Fyw Orau - Anne Hopkins



Lle bach - Cheryl Dodd

*MAE'R HOLL WYBODAETH YNG NGHYLCHGRAWN TŶ AGORED YN GYWIR WRTH FYND I'R WASG.*



Yr ardd blodau gwyllt orau - Patrick MacCormack



Llety gwarchod gorau – Preswylwyr Laugharne Court



Yr ardd fwytadwy orau - Andrea Evans



Y blodyn haul gorau - Joanne McCabe



Y garddwr newydd gorau - Judith Wood



## THE RADIO SIGNAL THAT CONTROLS RTS ELECTRICITY METERS IS BEING SWITCHED OFF

The switch off will affect energy consumers that have an RTS electricity meter in their home.

It may mean that your heating and hot water supply stops working as normal.




### WHAT IS THE RADIO TELESWITCH SERVICE (RTS)?

RTS uses a radio signal to tell some older electricity meters when to switch between peak and off-peak rates. It's coming to an end because the service has reached the end of its operational life.

If you have an RTS electricity meter it will need to be replaced.

**If your energy supplier contacts you take action to book your installation**



ofgem



www.abertawe.gov.uk/tai
tai@abertawe.gov.uk

# Y Diweddaraf am y Rhaglen Rhagor o Gartrefi

## Tŷ Brondeg

Mae gwaith wedi dechrau i baratoi'r seiliau ar safle hen gyfleuster addysgol dan berchnogaeth Cyngor Abertawe o'r enw Tŷ Brondeg yng nghymuned Trefansel. Dymchwelwyd yr hen gyfleuster yn flaenorol ar ôl i'r Cyngor ddweud nad oedd angen yr adeilad arno mwyach.

Bydd y datblygiad dan arweiniad y Cyngor yn creu cyfanswm o 13 o gartrefi newydd, a fydd yn cynnwys 8 o fflatiau un ystafell wely, 5 tŷ â thair ystafell wely. Bydd pob un ohonynt yn cynnwys technoleg ynni effeithlon, gan gynnwys paneli solar, storfeydd batri a gwres o'r ddaear, â'r bwriad o gadw cartrefi'n gynhesach a lleihau biliau ynni cymaint â phosib. Disgwylir i'r cynllun fod yn barod ar gyfer tenantiaid newydd yn gynnar yn 2026.

Mae cam diweddaraf y gwaith yn rhan o raglen Rhagor o Gartrefi ehangach y Cyngor, sydd eisoes wedi creu mwy na 280 o gartrefi Cyngor ychwanegol yn y ddinas.

Meddai Andrea Lewis, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau, "Dyma'r cynllun diweddaraf yn ein rhaglen Rhagor o Gartrefi, sy'n galluogi'r Cyngor i adeiladu mwy o dai Cyngor a chynyddu'r cyfleoedd i breswylwyr symud i lety o ansawdd uchel sy'n eiddo i'r Cyngor.

"Nodwyd yn flaenorol nad oedd angen Tŷ Brondeg mwyach. Mae rhan o'n strategaeth wedi cynnwys edrych ar hen safleoedd yn y ddinas sy'n eiddo i'r Cyngor lle gallwn adeiladu cartrefi newydd ac ychwanegu at ein stoc dai bresennol.

"Mae'n bwysig nodi bod y cynllun diweddaraf hwn yn cynnwys sawl eiddo un ystafell wely, y mae galw mawr amdanynt yn Abertawe. Mae hwn yn rhan o fuddsoddiad sylweddol gan y Cyngor - addawyd mwy na £55 miliwn ar gyfer tai yn 2024/25 ac rydym wedi ymrwymo i wario £250 miliwn yn ystod y pum mlynedd nesaf.

"Rwy'n hyderus y bydd y datblygiad newydd hwn yn dilyn yr esiampl a osodwyd gan gynlluniau Rhagor o Gartrefi blaenorol yr ydym wedi'u cwblhau yn y blynyddoedd diweddar - gan ddarparu cartrefi modern, diogel a chynnes i deuluoedd neu unigolion."

## Canolfan Sparks

Mae canolfan ieuenctid a fu gynt yn eiddo i Gyngor Abertawe yn cael ei thrawsnewid yn fflatiau newydd. Mae gwaith adnewyddu'n parhau ar hen safle Canolfan Addysg Sparks ym Mlaen-y-maes, sy'n cael ei haddasu'n bedair fflat breswyl. Dyluniwyd a chwblhawyd y gwaith o addasu'r adeilad yn fflatiau gan Dîm Gwasanaethau Adeiladu'r Cyngor.

Bydd y fflatiau hyn ar gael i breswylwyr ar restr aros tai y Cyngor a disgwylir iddynt fod yn barod ar gyfer tenantiaid newydd yn gynnar yn 2025.

Bydd y prosiect pan fydd wedi'i orffen yn cynnwys 2 fflat un ystafell wely a 2 fflat dwy ystafell wely, a bydd yn rhoi bywyd newydd i adeilad gwag nad yw wedi cael ei ddefnyddio ers nifer o flynyddoedd. Bydd plannu tai a gwrychoedd ychwanegol, yn ogystal â gosod blychau adar ac ystlumod, yn helpu i roi hwb i nodweddion gwyrdd a bioamrywiaeth y gymuned.

Cafwyd cyllid ar gyfer y rhaglen Rhagor o Gartrefi a arweinir gan y Cyngor drwy Raglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro Llywodraeth Cymru ynghyd â chyllid ychwanegol drwy gyfrif refeniw tai'r Cyngor.

Meddai Andrea Lewis, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau, "Un o'n nodau o ran cynyddu ein stoc dai gyffredinol yn Abertawe yw edrych ar ein hopsiynau ar gyfer defnyddio hen eiddo'r Cyngor sy'n wag at ddiben arall. Mae'r cynllun diweddaraf hwn ym Mlaen-y-maes yn enghraifft wych arall o'n hymdrechion i ddefnyddio adeiladau presennol ar draws y ddinas, a'u haddasu'n llety Cyngor mawr ei angen."

Mae'r Cyngor eisoes wedi cwblhau prosiectau tebyg i helpu i roi hwb i'w stoc dai, gyda chynlluniau wedi'u cwblhau yn hen Swyddfeydd Tai Ardal Pen-lan ac Eastside, sydd wedi'u trawsnewid yn fflatiau newydd.





# Diweddariad ar Safon Ansawdd Tai Cymru

## Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) newydd 2023

Gwnaed SATC yn ddeddfwriaeth gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac mae wedi bod yn ofynnol i Ddinas a Sir Abertawe fel landlord fodloni'r safon hon fel rhwymedigaeth gyfreithiol. Cyhoeddwyd SATC 2023 fel y'i diwygiwyd ym mis Ebrill 2024 ac mae manylion llawn i'w cael yn **https://www.llyw.cymru/safon-ansawdd-tai-cymru-2023-0**

## Rheoliadau eraill

Er bod SATC ei hun yn ofyniad cyfreithiol, mae'r safon hefyd yn dod â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol eraill ynghyd fel y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai a Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005. Mae hefyd yn cysylltu â Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, a Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynddi) Cymru 2022.

## Beth sy'n cael ei gyflawni?

Ataliwyd adrodd am gydymffurfio wrth i'r safon newydd gael ei datblygu. Adroddir am y ffigurau cydymffurfio nesaf wrth Lywodraeth Cymru yn ystod Pasg 2025.

Mae Cyngor Abertawe wedi bod yn gweithio'n galed i gyflawni SATC a bydd yn parhau i weithio tuag at gyrraedd y safonau a geir yn y fersiwn newydd, sef fersiwn ddiwygiedig 2023.

Rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, gwnaed y gwaith canlynol.

- Gwaith insiwleiddio waliau allanol a gwblhawyd - 246
- Toeon a gwblhawyd - 137
- Boeleri - 284



- Larymau mwg - 869
- Ailweirio trydanol - 346
- Ceginau - 273
- Ystafelloedd ymolchi - 284

Yn ystod blwyddyn ariannol 2023/34, gwariodd y Cyngor £40.1 filiwn ar atgyweirio a chynnal ei gartrefi.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r rhaglenni hyn gydag arian grant, gan gynnwys £9.2m o'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr, dros £1m o'i Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio a thros £1.5m ar gyfer diogelwch tân.

## Cynlluniau diddosi rhag y gwynt a thywydd garw

Gyda chynlluniau diddosi rhag y gwynt a thywydd garw fel arfer caiff y tu allan i eiddo ei ailwampio â rendro wedi'i inswleiddio, ac mewn rhai achosion, gosodir to, ffenestri a drysau newydd ar yr un pryd.

Mae sawl cynllun Inswleiddiad Waliau Allanol yn mynd rhagddynt ac yn yr arfaeth.

Dyma'r ardaloedd sydd wedi'u cynnwys:

- Cae Conna Road, Blaen-y-maes, Fforesthall.
- Strydoedd amrywiol, Gellifedw.
- Toronto Place a Heol Gwyrosydd, Pen-lan a Gendros.
- Ceiriog Road, Pantycelyn Road a Taliesyn Road, Mayhill a Townhill.

## Diddosi rhag y gwynt a thywydd garw gydag ynni adnewyddadwy ychwanegol

Mae gwaith yn cael ei gwblhau mewn rhai cynlluniau mawr i wella eu heffeithlonrwydd ynni a bydd yn cynnwys paneli ffotofoltäig solar a storfeydd batri.

Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys:

- Strydoedd amrywiol, Penyrheol.
- Parkway, Baytree Avenue a Briar Dene, Sgeti.
- Bettsland, Broadparks a Northeron, West Cross.
- Ardal Cil y Coed, Waunarlwydd - mae paneli ffotofoltäig a systemau storio batris yn cael eu hychwanegu at y cam cyntaf, a gyflwynwyd drwy arian grant gan Lywodraeth Cymru.





- Woodside Crescent, Clydach – mae'r gwaith eisoes wedi dechrau.

Rydym yn edrych ar ardaloedd eraill ar hyn o bryd gan gynnwys Garden City, Gwernfadog Road a Llanllienwen Road, ardal Treforys (Chemical Road, Heol Fedw) ac mae'n bosib y caiff yr ardaloedd hyn eu cynnwys yn y dyfodol.

## Cynlluniau diddosi rhag y gwynt a thywydd garw eraill

Dylai'r gwaith i wella fflatiau Crofty Street gychwyn yn fuan. Bydd hyn yn cynnwys ceginau, ystafelloedd ymolchi a ffenestri newydd.

Mae gwelliannau'n cael eu gwneud yn Felindre a Garnswllt sy'n canolbwyntio ar eiddo heb brif gyflenwad nwy. Byddwn yn ystyried darparu ynni amgen fel gwresogi gwres o'r aer.

## Cynllun Simneiau

Mae'r cynllun simneiau wedi bod yn tynnu simneiau i lawr o gwmpas y ddinas lle nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach i atal unrhyw debygolrwydd y byddant yn gollwng dŵr ac yn achosi lleithder yn yr eiddo. Gyda'r cynllun hwn, tynnir y simneiau i lawr mor bell â phosib; fel arall, cânt eu hailbwyntio neu eu hatgyweirio.

## Heol Emrys a Tudno Place

Mae ceginau ac ystafelloedd ymolchi yn cael eu hailwampio yn Heol Emrys a Tudno Place, a systemau trydan a boeleri'n cael eu huwchraddio yno. Bydd rhagor o brosiectau'n dilyn yma.

## Gwresogi

Mae cynllun boeleri ar waith o hyd i osod boeleri newydd gradd A yn lle'r hen rai a rhai sydd wedi dyddio yn ein heiddo er mwyn sicrhau effeithlonrwydd y system wresogi.

## Diogelwch

Mae gwaith SATC hefyd yn cynnwys adnewyddu larymau mwg bob 10 mlynedd a gosodir larymau carbon monocsid (CO) hefyd ym mhob eiddo. Mae'n bwysig ein bod yn cael mynd i mewn i eiddo er mwyn gwneud y gwaith hwn.

Rydym hefyd wrthi'n cynnal profion trydanol ac yn gwneud gwelliannau yn ein holl gartrefi.

Cofiwch - profwch eich larwm mwg a'ch larwm CO bob mis. Os nad ydynt yn gweithio, dywedwch wrth y Cyngor am hyn yn syth.

## Cynlluniau Mynediad Llais

Mae cynllun bach i osod drysau a systemau mynediad llais newydd mewn blociau o fflatiau yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

## Diogelwch Tân

Mae Diogelwch Tân yn un o'n prif flaenoriaethau. Mae drysau tân wedi'u gosod ein holl eiddo ac maent yn cael eu cynnal a'u cadw'n llawn.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am ddiogelwch tân yn eich cartref, gallwch fynd i'r we-dudalen ganlynol **https://www.abertawe.gov.uk/diogelwchtenantiaid**

## Llwybrau Ynni Targed

Bydd adroddiad Llwybr Ynni Targed yn edrych ar berfformiad ynni eiddo unigol ac yn nodi sut gallant ddod yn fwy effeithlon - bydd hyn yn ein helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol, gan wneud cartrefi'n rhatach i'w cynnal a lleihau allyriadau carbon.

## Rhagor o wybodaeth

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am atgyweiriadau a gwelliannau mawr a gynlluniwyd ar gyfer eich cartref, cysylltwch â'ch Swyddfa Dai Ardal am fanylion.



# Arolygon Boddhad Tenantiaid a Lesddeiliaid

## Arolwg Boddhad Tenantiaid

**Ar ddiwedd 2023, gofynnwyd i chi lenwi Arolwg Boddhad Tenantiaid er mwyn i ni glywed eich barn a'n helpu i wella'r gwasanaethau rydych yn eu derbyn.**

**GWNAETH 1,337 O DENANTIAID LENWI'R AROLWG**

### Crynodeb o'r Canfyddiadau

Mae **73%** ohonoch yn fodlon iawn ac yn eithaf bodlon ar y gwasanaeth a ddarperir gan y Cyngor fel eich landlord.

Mae **65%** ohonoch yn fodlon iawn ac yn eithaf bodlon ar y ffyrdd yr ymdrinnir â gwaith atgyweirio a chynnal a chadw.

Mae **74%** ohonoch yn fodlon iawn ac yn eithaf bodlon ar eich cymdogaeth fel lle i fyw ynddo.

Mae **73%** ohonoch yn fodlon iawn ac yn eithaf bodlon ar safon gyffredinol eich cartref.

Mae **71%** ohonoch yn fodlon iawn ac yn eithaf bodlon bod eich taliadau gwasanaeth yn darparu gwerth am arian (gofynnwyd y cwestiwn hwn i'n tenantiaid Byw'n Annibynnol yn unig).

Mae **76%** ohonoch yn fodlon iawn ac yn eithaf bodlon bod eich cartref yn ddiogel.

Mae **77%** ohonoch yn fodlon iawn ac yn eithaf bodlon ar y datganiad "rwy'n ymddiried yn fy landlord."

Mae **58%** ohonoch yn fodlon iawn ac yn eithaf bodlon ar y ffordd y mae'r gwasanaeth tai yn ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae **53%** ohonoch yn fodlon iawn ac yn eithaf bodlon ar y cyfleoedd i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau.

Mae **52%** ohonoch yn fodlon iawn ac yn eithaf bodlon ar y ffaith ein bod ni'n gwrando ar eich barn ac yn gweithredu arni.

Mae **50%** ohonoch yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar y cyfleoedd i fynegi'ch barn ar sut y caiff y gwasanaethau tai eu rheoli.

Mae **73%** ohonoch yn fodlon iawn ac yn eithaf bodlon ar y ffaith bod eich rhent yn darparu gwerth am arian.

## Dyma'r hyn a ddywedoch wrthym:

Rydym yn cymryd eich adborth o ddifrif ac rydym wedi nodi 3 maes y mae angen i ni eu gwella:

- Atgyweiriadau a chynnal a chadw
- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Cyfleoedd i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau, gwrando ar farn a gweithredu arni, a chael cyfle i ddweud eich dweud am sut y caiff gwasanaethau eu rheoli.

Rydym yn gweithio i wella'r gwasanaeth atgyweiriadau. Roedd rhesymau pobl dros fod yn anfodlon ar hyn yn cynnwys atgyweiriadau yn cymryd rhy hir, galwadau ffôn a gollwyd, atgyweiriadau heb eu cwblhau etc. Rydym yn gweithio i gwblhau atgyweiriadau yn gynt ac rydym wedi cyflwyno system apwyntiadau wedi'u monitro ynghyd ag arolygon bodlonrwydd atgyweiriadau ar gyfer atgyweiriadau o ddydd i ddydd.

Mae bodlonrwydd ar y ffordd rydym yn ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi gwella ers yr arolwg diwethaf yn 2021. Mae ein Tîm Cyswllt â'r Gymuned wedi cael ei ddatblygu yn ddiweddar i adlewyrchu ein perthynas gadarnhaol â thenantiaid yn well.

Roedd y lefelau bodlonrwydd isaf yn ymwneud â chyfranogiad - cyfleoedd i ddweud eich dweud am y ffordd y caiff gwasanaethau eu rheoli, gwrando ar eich barn a chyfleoedd i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, rydym yn


www.abertawe.gov.uk/tai
tai@abertawe.gov.uk

falch bod 2 o'r meysydd hyn wedi gwella o ran boddhad ers 2021.

Mae gennym Strategaeth Cyfranogiad ac Ymgysylltu adnewyddedig er mwyn adlewyrchu sut yr hoffech chi fel tenantiaid ymgysylltu â ni yn well. Rydym wedi cyflwyno digwyddiadau dros dro mwy anffurfiol am bynciau sy'n achosi pryder, y mae gan nifer ohonynt amrywiaeth o wasanaethau i'w cynnig e.e. ailgylchu, diogelwch cymunedol, gofalwyr ystadau etc. Mae tudalen Facebook newydd yn benodol ar gyfer cyfranogiad wedi cael ei chreu. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am gyfleoedd i gymryd rhan drwy gysylltu â'n Swyddog Cyfranogiad, Alison Winter, ar ☎ **01792 635043**, ☎ **07775221453**, drwy ddefnyddio 'messenger' neu drwy e-bostio ✉ **alison.winter@abertawe.gov.uk**

Gallwch weld ein canlyniadau ar ein gwefan hefyd: **https://www.abertawe.gov.uk/CanlyniadauArolwgBoddhadTenantiaid**

Mae'n ofynnol i holl landlordiaid cymdeithasol Cymru lenwi arolwg boddhad tenantiaid bob 2 flynedd ac mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi'r canlyniadau ar ei gwefan - gallwch weld y canlyniadau a'u cymharu yma: **https://www.llyw.cymru/landlordiaid-cymdeithasol-arolwg-boddhad-tenantiaid-2024-html**

Diolch i bawb a oedd wedi llenwi'r arolwg a chymryd yr amser i'w ddychwelyd i ni; mae eich barn yn bwysig iawn i ni.

Cynhelir yr Arolwg Boddhad nesaf yn 2025.

Llongyfarchiadau hefyd i'r 3 thenant lwcus sydd wedi ennill y gystadleuaeth.

# Arolwg Boddhad Lesddeiliaid

## Ynghyd â'r arolwg i denantiaid, anfonwyd arolwg boddhad at bob un o'r 552 o lesddeiliaid y Cyngor, ac mae 76 arolwg wedi cael eu dychwelyd.

### Crynodeb o'r Canfyddiadau

Mae dros **60%** o lesddeiliaid yn fodlon eu bod yn cael y newyddion diweddaraf gan y gwasanaeth lesddaliadau am bethau sy'n effeithio arnynt fel lesddeiliaid.

Mae **52%** o lesddeiliaid yn deall eu cyfrifiadau tâl gwasanaeth.

Dywedodd dros **60%** o lesddeiliaid fod eu cyfriflen yn hawdd ei deall.

Dywedodd **56%** o lesddeiliaid fod y ffioedd yn cynrychioli gwerth da am arian.

Roedd **66%** o lesddeiliaid yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau atgyweirio.

Roedd **63%** o lesddeiliaid yn ymwybodol o gyfrifoldebau'r Cyngor i atgyweirio ardaloedd allanol/cymunedol.

Rhesymau dros gysylltu â'r gwasanaeth yn y flwyddyn ddiwethaf: gwaith mawr, atgyweiriadau a thaliadau gwasanaeth.

**Mewn perthynas â gwaith mawr:**

Roedd **53%** o lesddeiliaid yn fodlon iawn neu'n fodlon ar y broses ymgynghori ac roedd 55% yn fodlon ar yr wybodaeth a ddarparwyd.

Roedd **61%** o lesddeiliaid yn meddwl bod gwaith mawr wedi bod o fudd iddynt, ond roedd rhai wedi'u siomi'n fawr gydag ansawdd y gwaith.

Rydym yn bwriadu ailgyflwyno rhai holiaduron yn dilyn gwneud gwaith mawr er mwyn casglu'r wybodaeth hon a datrys unrhyw faterion ar gam cynharach.

Roedd lesddeiliaid yn hapus yn byw yn eu cymdogaethau ond adroddwyd am broblemau mewn perthynas â defnyddio cyffuriau, ymddygiad gwrthgymdeithasol, y ffordd y mae eraill yn gofalu am eu heiddo a materion parcio. Rydym yn gobeithio y bydd y gwelliannau a nodwyd fel rhan o adborth yr arolwg i denantiaid yn gwella boddhad.

Ar y cyfan, roedd lesddeiliaid naill ai'n fodlon neu'n fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir; mae'r holl sylwadau wedi'u hadolygu a byddant yn cael eu hystyried fel rhan o unrhyw welliannau parhaus i wasanaethau.

# Lleisiau Tenantiaid

## Cyflwyniad

Fy enw i yw Alison Winter a fi yw eich Swyddog Cyfranogiad ac Ymgysylltu. Dyma fy niweddariad rheolaidd ar gyfranogiad tenantiaid yn Abertawe, lle'r wyf yn rhoi gwybodaeth i chi am yr holl gyfleoedd i gymryd rhan.

## Facebook




Gall tenantiaid a lesddeiliaid y Cyngor ymuno â dau grŵp Facebook sy'n ymwneud â Thai Cyngor Abertawe. Mae **Tai Cyngor Abertawe** yn cyhoeddi gwybodaeth ddefnyddiol, yn eich cynghori ar ddiweddariadau a newidiadau i'r gwasanaeth tai ac, wrth gwrs, yn ateb eich cwestiynau. Mae **Swansea Tenant Involvement Group** yn cynrychioli tenantiaid a lesddeiliaid sydd am gael cyfle i ddweud eu dweud am sut rydym yn darparu ein gwasanaethau a sut gellir eu gwella. Rydym hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth ddefnyddiol, manylion digwyddiadau ac arolygon Snap. Er mwyn ymuno â'r grwpiau, chwiliwch am 'Tai Cyngor Abertawe' a 'Swansea Tenant Involvement Group' ar Facebook; bydd angen i chi ateb cwestiynau aelodaeth i gael eich cymeradwyo.




## Enillydd raffl yr Arolwg Cyfranogiad Tenantiaid

Yn ddiweddar, gofynnwyd i denantiaid sydd wedi dangos diddordeb mewn bod yn rhan o bethau o'r blaen fynegi sut a phryd y byddai'n well ganddynt gyfranogi. Mae'r wybodaeth hon yn wirioneddol bwysig gan ein bod bellach yn gallu teilwra'r holl ddigwyddiadau cyfranogi ac ymgysylltu i weddu i'w hanghenion.



Llongyfarchiadau i Mrs Meredith, Swyddfa Ardal y Dwyrain, sydd wedi ennill taleb siopa £50 am gymryd yr amser i lenwi arolwg a oedd yn gofyn pa ffyrdd o gymryd rhan sydd orau ganddi. Meddai Mrs Meredith, "Dwi mor hapus fy mod wedi ennill. Doeddwn i ddim yn ei ddisgwyl gan nad wyf byth yn ennill dim."

## Ffair Nadolig yn Penrhiw Court

Yn ystod mis Rhagfyr, cynhaliwyd Ffair Nadolig gan breswylwyr Penrhiw Court, Ardal y Dwyrain. Roedd stondinau'n gwerthu teisennau blasus a danteithion melys, canhwyllau, cwyrau arogleuol i'w toddi, gemwaith a llawer mwy. Daeth llawer o bobl i'r digwyddiad a mwynhaodd pawb yn fawr. Dywedodd un preswylydd sydd newydd symud i Penrhiw Court gymaint yr oedd yn mwynhau digwyddiadau o'r fath gan eu bod wedi'i helpu i wneud ffrindiau newydd a theimlo'n rhan o'r gymuned.



## Mynd o gwmpas y lle

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, rwyf wedi bod yn mynd i sesiynau galw heibio, mannau cynnes a chlybiau cymdeithasol yn ein stadau cyngor. Rwyf wedi bod yn siarad â phreswylwyr am faterion sy'n effeithio arnynt a ble y gallant gael gafael ar gymorth. Yn ddiweddar rwyf wedi bod i'r Cwtsh Cydweithio yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau sy'n fan ymgysylltu â'r gymuned, ac rwyf hefyd wedi bod i'r Man Cymunedol yng Nghanolfan Siopa'r Cwadrant. Cynhaliwyd hyn gan Heddlu De Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru drwy gydol mis Rhagfyr.

Os oes gennych chi unrhyw glybiau cymdeithasol neu sesiynau galw heibio yr hoffech chi i mi ddod iddynt, rhowch wybod i mi ac mi wnaf fy ngorau!

## Dweud eich Dweud

Os hoffech ddweud eich dweud yna gallwch fod yn rhan o gynifer neu gyn lleied o bethau ag y dymunwch. Does dim rhaid i chi ddod i gyfarfodydd - gallwch roi eich barn i ni o gysur eich cartref. Os hoffech wybod mwy, cysylltwch â mi drwy ffonio ☎ **01792 635043** neu ☎ **07775221453**, drwy 'Messenger' neu drwy e-bostio ✉ **alison.winter@abertawe.gov.uk**

# Newyddion Byw'n Annibynnol



## Gwaith Uwchraddio Lolfa Gymunedol Byw'n Annibynnol

Yn ystod 2024, gwnaethom barhau â'n cynllun i uwchraddio ac adnewyddu 3 lolfa arall sy'n rhan o'r Cynllun Byw'n Annibynnol yn lleoliadau Ger-y-Pant, Llwyncethin a Thomas Harris.

Mae gan y lolfeydd garpedi, llenni, addurniadau ffenestri, gwaith celf, ategolion a chelfi newydd.

Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn ac mae'n hyfryd gweld cynifer o'r preswylwyr yn defnyddio'r lolfeydd ac yn eu mwynhau.

## Boreau Coffi Macmillan

Gwnaeth llawer o'n cyfadeiladau Byw'n Annibynnol gynnal boreau coffi yn ystod mis Medi 2024 i gynyddu ymwybyddiaeth o elusen cymorth canser Macmillan a chodi arian iddi. Mae boreau coffi'n codi miliynau o bunnoedd bob blwyddyn i'r elusen, sy'n cefnogi pobl sy'n byw â chanser.

Roedd y cynlluniau a gynhaliodd foreau coffi'n cynnwys Plas Melyn, Portmead a Maes yr Efail, Gorseinon. Meddai Paula Murray, y Swyddog Byw'n Annibynnol ar gyfer Plas Melyn, "Trefnodd y tenantiaid fore coffi gyda theisennau a theisennau crwst blasus, a chodwyd dros £600 a gwnaeth bawb ei fwynhau".

# Diogelwch Nwy

## Beth i'w wneud os ydych yn arogli nwy

- Diffoddwch y cyflenwad nwy wrth y falf rheoli brys (a elwir hefyd yn falf diffodd nwy) wrth y mesurydd oni bai fod y mesurydd mewn islawr neu seler neu wrth y tanc LPG neu mewn tanc storio.
- Agorwch yr holl ddrysau a ffenestri i gael gwared ar y nwy i awyru'r eiddo. Os nad yw'n ddiogel gwneud hynny, gadewch yr eiddo yn ôl yr angen.
- Diffoddwch bob fflam a pheidiwch â smygu. Peidiwch â defnyddio unrhyw switshis trydanol (gan gynnwys troi goleuadau ymlaen neu eu diffodd) oherwydd gall hyn danio unrhyw nwy sy'n dianc.
- Ffoniwch y Gwasanaeth Argyfwng Nwy Cenedlaethol ar ☎ **0800 111 999**. Bydd y rhif ffôn hwn ar eich mesurydd nwy, a gallwch ei ffonio am ddim. Peidiwch â defnyddio'r ffôn y tu mewn i'r eiddo.

## Yr hyn y gallwch chi ei wneud

- Wrth brynu'ch teclyn nwy eich hun, er enghraifft popty, gwnewch yn siŵr ei fod wedi'i farcio â nod barcud Safon Brydeinig.
- RHAID i boptai nwy gael eu gosod gan Beiriannydd Diogelwch Nwy cofrestredig. Gallwch wirio cofrestriad eich peiriannydd ar y Gofrestr Diogelwch Nwy a bydd pob peiriannydd yn cario dull adnabod.
- Prynwch eich nwyddau nwy gan adwerthwr ag enw da yn unig.
- Bydd angen i unrhyw waith nwy neu wresogi arall a wneir yn eich eiddo gael ei gymeradwyo gan eich Swyddfa Dai Ardal.

## Pwy sy'n gallu helpu

- Rhaid i chi wirio a gwasanaethu eich offer nwy yn rheolaidd.
- Mae'n rhaid i'r Cyngor, yn ôl y gyfraith, gynnal gwiriad diogelwch nwy rheolaidd ar yr holl offer nwy unwaith y flwyddyn - mae hwn am ddim.

  Mae'n rhaid i ni gael mynediad i'ch cartref i gynnal y gwiriad hwn.

  Byddwn yn gwasanaethu ac yn atgyweirio'r holl offer rydym wedi'u gosod.

  Cofiwch mai er eich diogelwch chi yw hyn.
- Yn ystod y gwiriad byddwn yn gwasanaethu'r offer neu'r cyfarpar nwy.
- Bydd poptai nwy yn destun gwiriad diogelwch gweledol.
- Bydd angen i ni hefyd gael mynediad at eich i'ch mesurydd nwy ac yn aml cynhelir archwiliadau o'r ffliw yn yr atig.
- Os nad ydych adref pan fydd y peiriannydd yn galw heibio, bydd cerdyn yn cael ei adael gyda rhif cyswllt swyddfa'r adran nwy. Ffôn: ☎ **01792 511011**

# Fy Nhai - Eich Ateb Ar-lein

## Ar gael 24/7 ac yn barod pan fyddwch chi'n barod.

**Mae rheoli eich tŷ cyngor yn haws nag erioed.**

Mae'r porth ar-lein yn darparu mynediad cyflym a hawdd at yr holl wybodaeth am eich cartref.

**Cofrestrwch / mewngofnodwch yma: tai.abertawe.gov.uk**

## A oes angen eiddo mwy arnoch?

## Ydy eich cartref yn rhy fawr i chi nawr a hoffech symud i eiddo llai o faint?

### Dylech gofrestru ar gyfer HomeSwapper heddiw er mwyn dod o hyd i eiddo y gallwch ei gyfnewid am eich un chi!

Gwasanaeth sydd ar gael ar draws y DU yw **HomeSwapper** ac mae'n cynnwys y rhan fwyaf o ddarparwyr tai cymdeithasol, felly nid yw'r cyfleoedd yn gyfyngedig i dai cyngor yn unig.

Mae dros 700 o denantiaid Cyngor Abertawe wedi cofrestru ar gyfer **HomeSwapper** ac mae'r eiddo canlynol yn cael eu hysbysebu ar hyn o bryd:

77 fflat ag un ystafell wely,

439 fflat/tŷ â 2 ystafell wely

175 fflat/tŷ â 3 ystafell wely

17 tŷ â 4 ystafell wely

O fis Mawrth 2023 i fis Ebrill 2024 cyfnewidiwyd 94 o eiddo ar y cyfan, sy'n golygu bod 94 o aelwydydd wedi gallu symud heb fod ar y rhestr aros.

Ar hyn o bryd mae dros 1,700 o denantiaid ar y rhestr aros ar gyfer trosglwyddiad. Petai pawb ar y rhestr aros wedi cofrestru ar gyfer **HomeSwapper**, byddai mwy o gyfle i gyfnewid cartrefi.

HomeSwapper


## Wythnos bagiau PINC neu sachau GWYRDD?

# LAWRLWYTHWCH EICH CALENDR AILGYLCHU 2025 NAWR!

**www.abertawe.gov.uk/chwiliocasgliadau**



Abertawe yn ailgylchu
Swansea recycles

Cyngor Abertawe
Swansea Council